

BETH YW GASTROENTERITIS FEIROL/ ROTAFEIRWS?



Gastro-enteritis feirol yw haint feirol a ddigwydd yn achlysurol, ar adegau arbennig o'r flwyddyn yn aml, ac a elwir weithiau yn fflwg gastrig, Rotafeirws or feirws Norwalk. Gall effeithio ar unigolion a hefyd, fel sy'n digwydd yn aml iawn, grwpiau mawr o bobl.

O ble ddaeth yr haint?

O un o'r ffynonellau canlynol:

- Cyswllt agos â rhywun arall sydd wedi'i heintio
- Bwyta bwyd sydd wedi'i heintio â'r organeb.
- Cyswllt â'r haint sydd yn yr amgylchedd, toiledau yn arbennig.

Pryd wnes i ddal yr haint?

Byddwch fel arfer yn dechrau teimlo'n sâl o fewn 24-48 awr wedi i chi gael eich heintio ond gall amrywio rhwng 10 a 50 awr yn dibynnu ar y dds a ffyrnigrwydd y feirws.

Beth yw'r arwyddion a'r symptomau ?

- Cyfogi
- Dolur rhydd
- Poen yn y bol
- Twymym

Sut mae ei atal rhag lledu ?

- Golchi'r dwylo yn drylwyr ar ôl mynd i'r toiled a chyn paratoi bwyd neu fwyta bwyd.
- Dylid golchi dwylo plant ifanc sydd â'r haint neu eu goruchwyllo yn golchi eu dwylo eu hunain.
- Diheintio pob man yn y toiled bob dydd (gan gynnwys dolenni'r drws) ac unrhyw fannau eraill a allai fod wedi'u heintio o ganlyniad i'r cyfogi.
- Dylai pobl sydd wedi'u heintio aros adre o'r gwaith hyd nes y bydd y cyfogi a'r dolur rhydd wedi cilio.
- Os yw'r sawl sydd wedi'i heintio yn trin bwyd, yn gweithio fel gofalydd iechyd/nyrs neu'n blentyn sy'n mynd i ysgol neu feithrinfa ayb holwch am gyngor pellach.
- Darllen y daflen sydd ynghlwm am gyngor mwy manwl.

Ble alla i gael mwy o gyngor ?

- Bydd eich Meddyg Teulu neu arbenigwr iechyd yn gallu rhoi cyngor i chi ar y gofal fydd ei angen ar gleifion unigol.
- Dylech ddweud wrth eich cyflogwr neu, gyda phlant, brifathro'r ysgol i weld a oes angen aros adre a phryd i ddychwelyd i'r gwaith neu'r ysgol.
- Bydd y swyddog ymchwilio hefyd yn rhoi i chi daflen fwy cyffredinol ar sut i reoli'r haint a gallwch gysylltu â'r swyddog drwy ffonio'r rhif isod os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.



Pennaeth Diogelwch Cyhoeddus
Ty Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
NP12 2YW

01495 235246